Gwybodaeth ddefnyddiol

Cefndir

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol i'r trydydd sector yng Nghymru a'n gweledigaeth yw dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb.

Yn WCVA rydym yn cefnogi'r trydydd sector, sef unrhyw beth sy'n anllywodraethol ac yn ddielw, o elusennau, cylchoedd meithrin, mentrau cymdeithasol, clybiau chwaraeon a chymdeithasau tai, i ymgyrchoedd sy'n mynd i'r afael â heriau economaidd ac amgylcheddol mawr megis tlodi a'r newid yn yr hinsawdd.

Ein cenhadaeth

Rydym eisiau bod yn gatalydd dros newid positif drwy wneud y canlynol:

Cysylltu

Mae mudiadau ledled Cymru gyfan yn rhan o'n haelodaeth, grŵp amrywiol iawn sydd â chyfoeth o sgiliau, profiadau a syniadau. Mae WCVA yn helpu'r grwpiau hyn i gysylltu fel y gallant rannu â'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Rydym hefyd yn cynnig cysylltiadau â rhwydweithiau trydydd sector tebyg nid yn unig yng Nghymru ond ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, ac â phartneriaid mewn sectorau eraill.

Galluogi

Rydym yn cynorthwyo'r sector i ddysgu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim, yn gwella sgiliau, yn rhannu gwybodaeth a chyngor ac yn cynnig gwasanaethau a chymorth ymarferol gan gynnwys adnoddau, hyfforddiant a digwyddiadau, a chyllid.

Dylanwadu

Rydym mewn sefyllfa unigryw i wybod beth yw'r materion mawr sy'n peri pryder i'r sector. Gall WCVA godi llais ein haelodau, gan gynnwys drwy ffurfio cynghreiriau ar faterion o bwys i lawer o fudiadau. Mae WCVA yn ymgysylltu â'r cyrff allweddol y mae ein haelodau am ddylanwadu arnynt felly rydym yn deall y dulliau a'r cyfleoedd i fynnu newid ar y lefel genedlaethol.

I gael gwybod mwy am WCVA a'n gwaith yn cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru ewch ar ein gwefan www.wcva.org.uk.

Buddsoddwyr mewn Pobl

Mae WCVA wedi ennill cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl. Safon genedlaethol yw Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n gosod lefel o ymarfer da ar gyfer gwella perfformiad corff drwy ei bobl. Mae WCVA wedi ymrwymo i gwrdd â'r datblygiadau a hyfforddiant parhaus ar gyfer ei holl weithwyr.

Nodiadau canllaw ar lenwi eich ffurflen gais

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus pan fyddwch yn paratoi eich Ffurflen Gais os gwelwch yn dda. Fel rhan o ymrwymiad WCVA i gyfle cyfartal, eich Ffurflen Gais a'ch llythyr cefndir fydd yr unig wybodaeth a ddefnyddir i benderfynu a fyddwch yn cael cyfweliad ai peidio, felly manteisiwch arno! Dylech sicrhau eich bod yn darllen yr holl wybodaeth a anfonir atoch.

Addysg a hyfforddiant

Os byddwch yn llwyddo i gael eich penodi gyda WCVA, disgwylir i chi ddangos prawf o'ch cymwysterau. Ni dderbynnir llungopïau.

Hanes cyflogaeth

Dylech roi manylion llawn eich hanes cyflogaeth, gan gynnwys unrhyw gyfnodau nad oeddech chi'n gweithio, peidiwch â gadael bylchau.

Ein swyddfeydd

Mae gan WCVA 3 swyddfa yng Nghymru:

- Swyddfa Gofrestredig – Tŷ Baltig , Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
- Swyddfa'r Rhyl – Neuadd y Morfa, Stryd y Baddon, y Rhyl, LL18 3EB
- Swyddfa Aberystwyth, 2 Yr Hen Leiandy, Ffordd Llanbadarn, Aberyswyth, SY23 1EY

Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol

Mae'r adran hon yn eich Ffurflen Gais yn bwysig iawn. Dyma eich cyfle i bleidio eich achos am y swydd. Edrychwch ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y swydd, a rhowch dystiolaeth eich bod yn meddu ar y rhain drwy roi enghreifftiau penodol. **Peidiwch ag anghofio gwaith di-dâl/gwirfoddol!** Nodwch unrhyw sgiliau neu brofiad perthnasol yr ydych chi wedi eu hennill y tu allan i'ch gwaith llawn amser, er enghraifft efallai eich bod yn trefnu gweithgareddau yn eich cymuned neu efallai fod gennych nifer o gyfrifoldebau domestig.

Geirdaon

Dylai eich cyflogwr presennol fod yn un o'ch canolwyr, neu, os mai hon yw eich swydd gyntaf ar ôl cwblhau hyfforddiant, eich tiwtor coleg, pennaeth yr ysgol, athro neu athrawes. Os nad ydych chi wedi cael eich cyflogi o'r blaen neu os nad ydych chi wedi bod yn gweithio ers cryn amser, efallai y byddwch chi eisiau rhoi enw rhywun sy'n eich adnabod yn ddigon da i gadarnhau'r wybodaeth a roddwch a rhoi sylwadau ar eich gallu i wneud y swydd. Eir ar drywydd geirdaon ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer. Cofiwch nodi a ellir cysylltu â'ch canolwyr ar y cam hwn ai peidio. **Cofiwch os gwelwch yn dda, y bydd unrhyw benodiad a gynigir yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol.**

Cyfle cyfartal

Mae WCVA wedi ymrwymo i Gyfle Cyfartal ac mae ffurflen monitro wedi'i chynnwys o fewn y ffurflen gais.

Mae WCVA eisiau sicrhau ymgeiswyr na ddefnyddir y ffurflen hon mewn unrhyw ran o'r broses recriwtio ac fe'i cedwir ar wahân i'ch Ffurflen Gais yn syth ar ôl eu derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn gyfrinachol ac fe ddefnyddir y wybodaeth at ddibenion monitro yn unig er mwyn asesu effeithiolrwydd ein polisi cyfle cyfartal.

Beth nesaf?

Er mwyn arbed arian, nid yw WCVA yn cydnabod ei fod wedi cael ceisiadau a gyflwynir â llaw neu yn y post. Amgaewch amlen barod os ydych chi eisiau i ni gydnabod ein bod wedi cael eich cais.